Parc Tŷ Glas Llanisien Llanishen Caerdydd Cardiff Cymru Wales CF14 5DU
Ebost Email s4c@s4c.co.uk / Gwefan Website s4c.co.uk
Ffôn Phone +44(0)29 2074 7444 / Ffacs Fax +44(0)29 2075 4444

Gwahoddiad i Dendro i Ddarparu Gwasanaeth
Panel Ymateb Cynulleidfa ar gyfer S4C

Cyhoeddwyd:	1 Gorffennaf 2008
Dyddiad olaf derbyn tendrau:	12.00 canol dydd [22 Awst] 2008

Cyflwyniad

Mae'r Gwahoddiad i Dendro ("GID") hwn yn gwahodd tendrau oddi wrth bersonau/sefydliadau sydd â diddordeb mewn darparu gwasanaeth panel ymateb cynulleidfa ar gyfer S4C, fel y'i ddisgrifir yn fanylach o fewn y GID hwn a'r cytundeb drafft sydd ynghlwm yn yr atodiad i'r GID hwn ('y Cytundeb Drafft').

Mae'r GID hwn wedi ei rannu'n chwe rhan, fel a ganlyn:

Rhan A	Gwybodaeth Gefndirol
Rhan B	Y Broses Dendro a'r Amserlen
Rhan C	Gwybodaeth sy'n Benodol i'r Cytundeb
Rhan D	Gwybodaeth i'w gynnwys yn y Cynigion Tendro
Rhan E	Meini Prawf Pwyso a Mesur a Dyfarnu'r Cytundeb
Rhan F	Nodiadau Cyfreithiol

Darllenwch y GID hwn yn fanwl, os gwelwch yn dda. Ni fydd cynigion tendro nad sydd yn cydymffurfio â'r gofynion a nodir yn y GID hwn yn cael eu hystyried yn ystod y broses dendro hon.

Nodwch, os gwelwch yn dda, bod y broses dendro hon, gan gynnwys y GID, yn ddarostyngedig i'r nodiadau cyfreithiol sydd i'w gweld yn Rhan F o'r GID hwn.

Rhan A Gwybodaeth Gefndirol

A.1 Gwybodaeth Gefndirol am S4C

Darlledwr gwasanaeth cyhoeddus yw S4C sy'n cynnig dros 80 awr o raglenni yn yr iaith Gymraeg bob wythnos, gan gynnwys chwaraeon, cerddoriaeth, digwyddiadau byw, drama, newyddion, dogfennau a rhaglenni plant. Ar hyn o bryd, mae S4C yn darlledu rhaglenni S4C a Channel 4 ar y llwyfan analog a S4C Digidol a S4C2 ar y llwyfan digidol.

Mae S4C hefyd yn gweddarlledu'r mwyafrif o'r cynnwys yn fyw ac yn cynnwys adnoddau ail-wylio ychwanegol ar y rhyngrwyd drwy wefan S4C (www.S4C.co.uk). Mae S4C hefyd yn gobeithio lansio gwasanaethau newydd i blant ar y llwyfan digidol yn y dyfodol agos. Mae S4C ar gael tu allan i Gymru ar Sianel rhif 134 Sky, heb ei amgryptio, a hefyd ar Freewire yn ogystal â gwefan S4C.

Caiff S4C ei ariannu gan Yr Adran Ddiwylliant, Y Cyfryngau a Chwaraeon. Am ragor o wybodaeth gefndirol am S4C, cymerwch olwg ar ein Hadroddiad Blynyddol 2007 sydd ar gael ar wefan S4C neu drwy gysylltu â: y Wifren Gwylwyr, S4C, Parc T Glas, Llanisien, Caerdydd CF14 5DU.

A.2 Gwybodaeth Gefndirol am y Cytundeb

Mae nifer o wahanol ddarparwyr trydydd parti allanol wedi darparu gwasanaeth panel ymateb cynulleidfa ar gyfer S4C ers 1994. Mae'r cytundeb presennol i

ddarparu gwasanaeth panel ymateb cynulleidfa ar fin dod i ben yn Rhagfyr 2008. Mae'r gwasanaeth panel ymateb cynulleidfa cyfredol yn defnyddio panel ymateb cynulleidfa ("panel") o 1500 ymatebwyr sy'n byw yng Nghymru, oddeutu dwy draean ohonynt yn Siaradwyr Cymraeg a'r gweddill yn ddi-Gymraeg. Defnyddir y panel presennol i ddarparu data am werthfawrogiad o raglenni teledu drwy ddefnyddio dyddiadur gwylio ac hefyd i fesur ymateb y panel i wahanol bynciau drwy ddefnyddio holiadur diagnostig dwyieithog (yn y Gymraeg a'r Saesneg). Mae'r dyddiadur cyfredol yn rhestru rhaglenni digidol BBC1, BBC2, ITV1, S4C a S4C digidol. Nodwch ei bod yn bosibl y bydd S4C yn dymuno ychwanegu neu dynnu allan sianelau yn y dyfodol. Defnyddir y dyddiadur i gymharu perfformiad fesul *genre* ar draws y sianelau teledu yn ogystal â pherfformiad rhaglenni unigol. Mae'r panel yn sgorio'r rhaglenni perthnasol yn unol â Mynegai Gwerthfawrogiad y Gynulleidfa ("MG"). Prif ffocws S4C wrth ddefnyddio'r data MG yw dadansoddi'r data MG ar gyfer rhaglenni Cymraeg ymhlith y siaradwyr Cymraeg, ac felly dim ond y siaradwyr Cymraeg sydd angen llenwi'r dyddiaduron hyn. Mae'r panel ar hyn o bryd yn ymateb naill ai'n electroneg neu drwy'r post.

Cyrhaeddiad Wythnosol Holl Oriau 2007 – Gwyliwyd S4C gan **854,000** ar draws y **DU**

732,000 yng Nghymru

122,000 yng ngweddill y DU

Cyrhaeddiad Wythnosol Oriau Cymraeg 2007 - Gwyliwyd S4C gan **609,000** ar draws y **DU**

511,00o yng Nghymru

98,000 yng ngweddill y DU

Mae 33% o'r gwylwyr yn yr oriau brig (18.30-21.30) yn ddi-Gymraeg

Ffynhonnell: BARB. Mae'r ffigyrau ***Cyrhaeddiad*** *hyn am o leiaf 3 munud olynol o wylio mewn wythnos.*

Rhan B Y Broses Dendro a'r Amserlen

B.1 Camau

Ar 1af Gorffennaf 2008 cyhoeddwyd hysbysiad cytundeb drwy wefan 'Buy4Wales' yng nghyhoeddiad yr "Official Journal of the European Union", yn gwahodd personau/sefydliadau sydd â diddordeb mewn darparu gwasanaeth panel ymateb cynulleidfa ar gyfer S4C i gymryd rhan yn y broses dendro hon. Dewisodd S4C y weithdrefn agored hon fel gweithdrefn y broses dendro.

Bydd y broses dendro yn cynnwys y camau canlynol:

Cam 1 dyddiad cau derbyn ceisiadau am eglurhad 1af Awst 2008

Cam 2 dyddiad cau derbyn cynigion tendro 12.00 canol dydd 22ain Awst 2008

Cam 3 pwyso a mesur y tendrau * 1af – 15fed Medi 2008

(noder, os gwelwch yn dda, y gall S4C ar y cymal hwn wahodd ymgeiswyr i fynychu cyfweliad/cyfarfod ag S4C yn swyddfeydd S4C)

Cam 4 hysbysu canlyniad y pwyso a mesur *yr wythnos yn dechrau 15fed Medi 2008

Cam 5 arwyddo'r cytundeb *1af Hydref 2008

Noder, os gwelwch yn dda, y gall y dyddiadau sydd wedi eu nodi â * newid.

B.2 Cyflwyno'r Cynigion Tendro

Gofynnir i chi gyflwyno eich cynnig i dendro yn unol â gofynion y GID hwn yn **electroneg** erbyn y dyddiad ac amser cau ar gyfer derbyn cynigion tendro a bennir yn Rhan B.1 uchod.

Dylai'r cynigion tendro fod wedi eu marcio'n glir gyda'r geiriau "Darparu Panel Ymateb Cynulleidfa" a'i anfon ar e-bost at: **panel@s4c.co.uk**

NI FYDD UNRHYW GYNIGION TENDRO SYDD YN CYRRAEDD WEDI'R DYDDIAD CAU A BENNIR YN RHAN B.1 UCHOD AR GYFER DERBYN CYNIGION NEU RAI SY'N CAEL EU CYFLWYNO I S4C I GYFEIRIAD ARALL YN HYTRACH NA'N UN A NODIR UCHOD YN CAEL EU HYSTYRIED A BYDD UNRHYW GYNIGION TENDRO O'R FATH YN CAEL EU GWAHARDD O'R BROSES DENDRO HON.

Nid yw S4C yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw wendidau yn unrhyw systemau cyfleu nac am unrhyw gynigion a fydd wedi mynd ar goll, cyrraedd yn hwyr neu am gynigion gwallus. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod eich cynnig tendro (ac unrhyw atodiadau) wedi ei baratoi mewn da bryd (gan ystyried y posibiliadau y gall staff fod yn absennol neu o fethiannau technegol) a'i fod yn cael ei gyflwyno cyn y dyddiad cau ar gyfer derbyn y cynnig tendro a bennir yn Rhan B.1 uchod. Ni ystyrir prawf ei fod wedi ei anfon fel prawf ei fod wedi ei gyfleu ac fe'ch cynghorir i ofyn am gadarnhad fod eich cynnig wedi ei dderbyn.

B.3 Pwyso a Mesur y Cynigion Tendro

Bydd S4C yn pwyso a mesur pob cynnig a dderbynir sy'n cydymffurfio â gofynion y GID hwn. Gall S4C ofyn i chi gyflwyno gwybodaeth ychwanegol a/neu eglurhad ar unrhyw fater o fewn eich cynnig tendro. Gall S4C hefyd ofyn i chi fynychu cyfweliad/cyfarfod ag S4C yn swyddfeydd S4C.

B.4 Hysbysu Canlyniadau'r Pwyso a Mesur

Bydd yr holl bersonau / sefydliadau sydd wedi cyflwyno cynigion tendro yn cael eu hysbysu drwy e-bost o ganlyniad y pwyso a mesur gan S4C. Gweler Rhan E.3 isod am fanylion pellach.

B.5 Cais am Wybodaeth Bellach

Rhaid i unrhyw gyfathrebu ag S4C mewn perthynas â'r broses dendro, gan gynnwys unrhyw gais am wybodaeth bellach a/neu arweiniad, fod drwy e-bost at panel@s4c.co.uk.

Ni ddylai ymgeiswyr ganfasio na phwyso am wybodaeth parthed y broses dendro hon oddi wrth unrhyw un o swyddogion neu gyflogai S4C nac unrhyw asiant neu ymgynghorydd i S4C mewn unrhyw fodd.

Fe'ch anogir i nodi unrhyw wybodaeth bellach a/neu arweiniad y gallech fod ei angen mewn perthynas â'r broses dendro hon cyn gynted ag y bo modd.Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am wybodaeth bellach a/neu arweiniad yw 1af Awst 2008. Ni fydd unrhyw gais wedi'r dyddiad hwn yn cael eu hystyried. Bydd S4C

yn delio'n brydlon â phob cais a dderbynnir cyn y dyddiad cau hwn.

Er lles tegwch a thryloywder, nodwch os gwelwch yn dda y bydd pob cais am wybodaeth bellach a/neu arweiniad mewn perthynas â'r broses dendro hon ac atebion S4C i'r fath geisiadau yn cael eu dadlennu i'r holl ymgeiswyr. Bydd pob ymateb o'r fath yn cael eu gwneud drwy wefan S4C (www.S4C.co.uk) ac fe ellir eu gweld drwy glicio ar "tendrau" a dilyn y ddolen. Eich cyfrifoldeb chi yw edrych ar y ddolen yn gyson am atebion o'r fath i geisiadau.

Os ydych yn ystyried bod unrhyw gais a wneir gennych chi am wybodaeth bellach a/neu arweiniad yn fasnachol sensitif, dylech nodi'r cais yn glir fel un "masnachol sensitif", gan roi'r rhesymau pam yr ydych yn ystyried ei fod yn fasnachol sensitif. Ond nodwch, os gwelwch yn dda, y bydd S4C yn penderfynu, yn ôl ei disgresiwn llwyr ei hun, a yw'r cais yn un masnachol sensitif. Os yw S4C yn penderfynu fod y cais yn fasnachol sensitif, ni fydd S4C yn dadlennu'r cais na'r ymateb i'r cais i ymgeiswyr eraill. Os yw S4C yn penderfynu nad yw'r cais yn un masnachol sensitif, bydd yn hysbysu'r sawl sy'n gwneud y cais o'i phenderfyniad. Os yw'r ymgeisydd yn cytuno nad yw'r cais yn un masnachol sensitif, bydd S4C yn ymateb i'r cais ac fe fydd gan S4C yr hawl i ddadlennu'r ymateb i'r holl ymgeiswyr eraill. Os nad yw'r ymgeiswyr yn cytuno ag S4C nad yw'r cais yn fasnachol sensitif neu os nad yw'n hysbysu S4C a yw'n cytuno neu beidio o fewn cyfnod o un diwrnod gwaith, ystyrir bod y cais wedi'i dynnu'n ôl ac ni fydd S4C yn ymateb iddo. Ni ellir dehongli unrhyw beth yn y paragraff hwn mewn unrhyw fodd fel cyfyngiad o unrhyw fath ar allu S4C i ddadlennu gwybodaeth i unrhyw berson mewn cydymffurfiaeth â'i dyletswyddau o ran rhyddid gwybodaeth fel y'u hamlinellir yn Rhan F.6 isod.

Ystyrir unrhyw geisiadau ac unrhyw ymatebion iddynt sy'n cael eu dadlennu i'r

holl ymgeiswyr fel rhan o'r GID hwn.

Rhan C Gwybodaeth sy'n Benodol i'r Cytundeb

C.1 Gofynion S4C

Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus recriwtio a chynnal trwy gydol cyfnod y cytundeb panel ymateb cynulleidfa sy'n cynnwys lleiafswm o 1500 o ymatebwyr sy'n byw yng Nghymru, dwy draean ohonynt yn Siaradwyr Cymraeg a thraean ohonynt yn ddi-Gymraeg (y "Panel"). Bydd rhaid i'r Panel a ddefnyddir fod yn gynrychioladol o boblogaeth Cymru.

Bydd angen i'r Panel ddarparu ymateb ac adborth i S4C drwy gyfrwng holiadur diagnostig dwyieithog (Cymraeg a Saesneg) a dyddiadur gwylio.

Bydd rhaid i'r holl waith cydlynu a recriwtio ar gyfer y Panel a'r holl ddeunyddiau a ddarperir i'r Panel fod ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae'r canran o oedolion sy'n ymuno â'r rhyngrwyd a chael band eang yng Nghymru bellach yn llawer is nag yng ngweddill y DU. Mae gan 55% gysylltiad rhyngrwyd yn eu cartrefi yng Nghymru (65% yn y DU) ac mae gan 45% wasanaeth band eang (57% yn y DU).

Ffynhonnell: Ofcom – Y Farchnad Gyfathrebiadau 2008: Cenhedloedd a Rhanbarthau, Mai 2008.

Yn sgil y wybodaeth uchod, mae'n hanfodol nad yw'r Panel wedi ei gyfyngu i rai sydd yn medru defnyddio'r rhyngrwyd yn unig, er mwyn darparu panel ymateb cynulleidfa effeithiol sy'n gynrychioladol o boblogaeth Cymru.

Bydd rhaid i'r holl ymatebwyr ar y Panel gwblhau'r holiadur diagnostig, hynny yw y Siaradwyr Cymraeg a'r di-Gymraeg fel ei gilydd. Bydd y cwestiynau yn bennaf yn ymwneud â rhaglenni ond o dro i dro gall fod angen holi'r Panel am arferion prynu a ffordd o fyw yn gyffredinol. Rhaid i'r holiadur fod yn ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg) ac ar gyfartaledd bydd yn cynnwys rhwng 10-20 cwestiwn. Er y bydd S4C yn trafod y cwestiynau i'w defnyddio â'r ymgeisydd llwyddiannus, yn y pen draw S4C fydd yn penderfynu pa gwestiynau a ddefnyddir.

Ar hyn o bryd, mae S4C yn selio pob adroddiad cyhoeddus ar samplau dros 25 (fesul *genre* fesul ton)ond bydd S4C hefyd angen adroddiadau ar raglenni gyda samplau llai o faint, yn ogystal â dadansoddiad hir dymor. Gweler yr adran ar adroddiadau isod am fwy o wybodaeth os gwelwch yn dda.

Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus sicrhau bod y methodoleg cyfrifo a ddefnyddir yn y cytundeb cyfredol yn parhau er mwyn sicrhau tracio hir dymor. Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus gyflwyno canlyniadau'r holl ddata a gasglwyd ganddo i S4C yn fisol. Rhaid i'r holl ddata fod wedi'i bwysoli. Bydd rhaid i'r adroddiad misol gynnwys y canlynol:

- y data diagnostig, wedi'i rannu'n dri set o ddata: holl banel, siaradwyr Cymraeg a'r di-Gymraeg.

- y canlyniadau MG, wedi'u rhannu yn dri set o ddata: rhaglenni yn ôl *genre*, rhaglenni wedi'u graddio yn ôl sianel/diwrnod/amser a'r cyfanswm MG ar gyfer pob sianel fesul pob *genre*.

- caiff y canlyniadau a ddisgrifir uchod eu rhannu'n ddau adroddiad – un ar gyfer yr holl ymatebion gyda maint sampl o 25 neu fwy a'r llall ar gyfer yr holl raglenni, beth bynnag fo maint y sampl.

Bydd angen i'r data hefyd gael ei rannu i grwpiau is-ddemograffig.

Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus hefyd ddarparu proffil Panel i S4C gan gynnwys graddfeydd ymateb ar ddiwedd pob ton o ymchwil.

Cyfrfifoldeb yr ymgeisydd llwyddiannus fydd darparu'r rhestrau rhaglenni ar gyfer y dyddiaduron.

Er nad yw'r broses dendro wedi'i chyfyngu i sefydliadau o faint penodol neu wedi'u lleoli mewn man penodol, mae'n ofyniad hanfodol bod yr ymgeisydd llwyddiannus yn medru recriwtio, sefydlu, cynnal a rhedeg y Panel a darparu gwasanaeth dwyieithog (Cymraeg a Saesneg) ymhob cymal.

Rhaid i ymgeiswyr fod â phrofiad ac arbenigedd mewn sefydlu a rhedeg a rheoli panelau ymchwil.

C.2 Hyd y Cytundeb

Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus ddechrau darparu'r gwasanaeth panel ymateb cynulleidfa i S4C o Ionawr 1 2009 ymlaen. Bydd y cytundeb yn cynnwys cyfnod paratoi (Hydref 20 2008 tan Rhagfyr 31 2008) ar gyfer recriwtio'r Panel a chyfnod prawf o chwe mis, pan fydd S4C yn arolygu ansawdd y gwasanaeth panel ymateb cynulleidfa sydd wedi'i ddarparu gan yr ymgeisydd llwyddiannus a bydd gan S4C yr hawl i derfynu'r cytundeb ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod prawf os nad yw ansawdd y gwasanaeth panel ymateb cynulleidfa a ddarparwyd yn cwrdd â gofynion S4C fel y'u pennir yn y cytundeb. Os caiff y cytundeb a arwyddwyd gyda'r ymgeisydd llwyddiannus ei derfynu yn ystod y cyfnod prawf, gall S4c benderfynu rhoi'r cytundeb i'r ymgeisydd gyda'r cynnig tendro a sgoriwyd y ail neu i ail-dendro'r cytundeb neu i ddarparu'r gwasanaeth yn fewnol. Yn sgil hyn, mae S4C yn mynnu bod pob cynnig tendro yn parhau ar agor i'w dderbyn am gyfnod o 12 mis o'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cynnig tendro y cyfeirir ato yn Rhan B.1 uchod. Yn ddarostyngedig i hawliau S4C i derfynu'r cytundeb yn gynnar yn unol â thelerau'r cytundeb neu i ymestyn y cytundeb am gyfnod pellach o hyd at 12 mis, bwriedir i'r cytundeb fod yn weithredol hyd at Ragfyr 31 2011.

C.3 Ffi Sefydlog

Mae S4C yn amcangyfrif na ddylai cyfanswm y gost o ddarparu gwasanaeth panel ymateb cynulleidfa dros gyfnod o dair blynedd yn unol â gofynion S4C fod yn uwch na £500,000 (heb gynnwys TAW).

Mae S4C yn mynnu bod y gwasanaeth panel ymateb cynulleidfa ar gyfer S4C yn cael ei ddarparu am ffi sefydlog i gynnwys yr holl waith paratoi fydd yn cael ei wneud a'r costau sefydlu yn ystod y cyfnod paratoi (gan gynnwys recriwtio'r

Panel) a'r holl gostau gweinyddu, staffio, cyfieithu, a chostau eraill fydd yn codi i'r ymgeisydd llwyddiannus wrth ddarparu'r gwasanaeth panel ymateb cynulleidfa.

Rhan D **Gwybodaeth sydd i'w chynnwys yn y Cynigion Tendro.**

Gellir cyflwyno'r cynigion tendro yn yr iaith Gymraeg neu'r Saesneg.

Rhaid i gynigion tendro gynnwys y wybodaeth sydd wedi'i rhestru isod gan ddilyn y drefn a'r penawdau isod. Gallwch gynnwys gwybodaeth ychwanegol lle mae'n berthnasol i'ch cynnig tendro ond fe'ch anogir i osgoi cyflwyniadau drudfawr a gor-liwgar.

Nodwch, os gwelwch yn dda, os yw'r cynnig tendro'n cael ei gyflwyno gan gonsortiwm, rhaid i'r wybodaeth a nodir isod yn y Rhan D hwn gael ei ddarparu ar gyfer pob aelod yn y consortiwm ag eithrio yr hyn sydd ei angen yn D.1.7 sydd yn berthnasol i'r aelod arweiniol yn unig.

D.1 **Gwybodaeth sylfaenol am eich sefydliad**

D.1.1 Eich enw llawn.

D.1.2 Eich statws cyfreithiol (e.e. cwmni preifat cyfyngedig, partneriaeth, unig fasnachwr).

D.1.3 Eich rhif cofrestru (os yn berthnasol).

D.1.4 Cyfeiriad eich swyddfa gofrestredig (os yn berthnasol), neu, os nad yn berthnasol cyfeiriad eich prif leoliad masnachu.

D.1.5 Eich rhif ffôn.

D.1.6 Eich rhif ffacs.

D.1.7 Enw, swydd, cyfeiriad, rhif ffôn, rhif ffacs a chyfeiriad e-bost yr unigolyn o fewn eich sefydliad y dylid cyfeirio'r hollohebiaeth ati/ato.

D.1.8 Eich rhif cofrestru TAW (os yw'n berthnasol).

D.1.9 Copi o'ch tystysgrif ymgorffori (os yw'n berthnasol).

D.1.10 Disgrifiad cryno o'ch prif weithgaredd busnes.

D.2 Gallu Economaidd ac Ariannol

D.2.1 Hyd y cyfnod yr ydych wedi bod yn masnachu. Os yw'n llai na thair blynedd, gellir darparu manylion unrhyw ragflaenydd.

D.2.2 Cyfriflen yn dangos am y dair blynedd flaenorol (a) eich trosiant; a (b) eich trosiant mewn perthynas â darparu gwasanaethau cyffelyb i'r gwasanaeth panel ymateb cynulleidfa, sef testun y broses dendro hon. Os ydych wedi bod yn

masnachu am lai na thair blynedd, gellir darparu yr un wybodaeth am unrhyw sefydliad a ragflaenodd yr ymgeisydd neu am bersonél allweddol yr ymgeisydd.

D.2.3 Copïau o'ch cyfrifon statudol am y dair blynedd ddiwethaf, yn dangos eich trosiant cyflawn. Os nad oes cyfrifon statudol ar gael, darparwch wybodaeth ariannol gyfwerth os gwelwch yn dda wedi'i ardystio ar lefel briodol. Os ydych wedi bod yn masnachu am lai na thair blynedd, gellir darparu'r un wybodaeth am unrhyw sefydliad a ragflaenodd yr ymgeisydd neu am bersonél allweddol yr ymgeisydd.

D.2.4 Manylion unrhyw yswiriant indemniad perthnasol sydd yn ei le gennych.

D.3 Gallu Technegol.

D.3.1 Manylion sut y byddech yn sefydlu, recriwtio, darparu a rheoli gwasanaeth panel ymateb cynulleidfa yn ddwyieithog ar bob cymal. Fel y nodwyd yn Rhan C.1, mae'r gallu i sefydlu a recriwtio'r panel ac i ddarparu gwasanaeth panel ymateb cynulleidfa yn ddwyieithog (yn Gymraeg a Saesneg) ar bob adeg yn amod hanfodol o'r cytundeb.

D.3.2 Manylion o unrhyw wasanaethau tebyg i'r gwasanaeth panel ymateb cynulleidfa, testun y broses dendro hon, sydd wedi'u darparu gennych yn ystod y tair blynedd ddiwethaf gan gynnwys manylion y clientiaid a dderbyniodd y fath wasanaethau a'r dyddiadau o ran darparu'r fath wasanaethau.

D.3.3 Manylion cyswllt dau sydd wedi derbyn y gwasanaethau y cyfeiriwyd atynt yn eich ateb i D.3.2 uchod y gall S4C gysylltu a hwy i gael geirda. A wnewch chi

gynnwys eu cyfeiriad post, rhif ffôn, rhif ffacs a chyfeiriad e-bost os gwelwch yn dda.

D.3.4 A oes unrhyw gleient wedi terfynu ei gytundeb â chi i gyflenwi gwasanaethau tebyg i'r gwasanaeth panel ymateb cynulleidfa, sef testun y broses dendro hon, oherwydd eich perfformiad gwael o fewn y tair blynedd ddiwethaf, neu a oes unrhyw iawndâl wedi ei hawlio yn eich erbyn dan unrhyw gontract o'r fath o fewn y tair blynedd ddiwethaf? Os oes, rhowch fanylion os gwelwch yn dda.

D.3.5 Manylion unrhyw system cynnal safonau a weithredir gennych.

D.3.6 Manylion unrhyw bolisi a/neu system iechyd a diogelwch a weithredir gennych.

D.3.7 Manylion byr, gan gynnwys profiad a chymwysterau, am y personél allweddol fyddai'n ymwneud â chyflawni'r gwasanaeth panel ymateb cynulleidfa.

D.3.8 Manylion am nifer eich staff a'ch staff rheoli ar gyfartaledd bob blwyddyn am bob un o'r tair blynedd ddiwethaf.

D.3.9 Os ydych chi'n bwriadu is-gontractio rhan neu'r cyfan o'r gwasanaeth panel ymateb cynulleidfa, rhowch fanylion, os gwelwch yn dda, am ba elfennau a chyfran o'r gwasanaeth panel ymateb cynulleidfa fyddai'n cael ei is-gontractio ac, os yw'n wybyddus, enwau'r prif is-gontractwyr.

D.3.10 Os yw'r cynnig tendro hwn yn cael ei gyflwyno ar ran consortiwm, nodwch, os gwelwch yn dda, pa swyddogaeth fydd i bob aelod o'r consortiwm.

D.3.11 Disgrifiwch y methodolegau fyddech chi'n eu defnyddio i gyflenwi'r gwasanaeth panel ymateb cynulleidfa. Bydd S4C yn croesawu'n arbennig unrhyw syniadau am fethodoleg ymchwil greadigol megis blogiau a dulliau o ymchwilio gwasanaethau gwefan ac ar-lein a braslun o ba mor hyblyg y gallech fod wrth addasu'r gwasanaeth panel ymateb cynulleidfa yn unol ag unrhyw newidiadau i ofynion S4c yn ystod tymor y cytundeb.

D.3.12 Disgrifiwch maint y panel y byddech yn medru ei gynnig o fewn sgôp y Gyllideb, y graddfeydd ymateb tebygol ar gyfer panel o'r fath a disgrifiwch sut byddech chi'n optimeiddio'r graddfeydd hyn ac yn rheoli unrhyw raddfeydd o ran lleihad mewn maint y Panel trwy gydol cyfnod y cytundeb.

D.3.13 Manylwch ym mha fformat y byddech yn cyfleu'r data i S4C, y modd ac amlder o gyfathrebu ag S4C yn ystod y cyfnod prawf ac yn ystod cyfnod gweithredol y cytundeb ac erbyn pryd y byddech angen holiaduron a gwybodaeth arall gan S4C a'r amserlen o ran cyflwyno'r data i S4C.

D.3.14 Manylwch am unrhyw fuddiannau neu ffactorau ychwanegol y byddai eich darpariaeth o wasanaeth panel ymateb cynulleidfa yn ei gynnig i S4C.

D.4. Ffi Pris Sefydlog

Mae S4C yn mynnu bod y gwasanaeth panel ymateb cynulledifa yn cael ei ddarparu am ffi sefydlog. Rhowch fanylion, os gwelwch yn dda, o'r ffi pris sefydlog yr ydych yn bwriadu codi yn y cytundeb, wedi ei rhannu i nodi ar wahân y ffi am sefydlu a recriwtio'r Panel yn ystod y cyfnod prawf y cyfeirir ato yn Rhan C.2 uchod a'r ffi am bob blwyddyn o'r cyfnod gweithredol arfaethedig o dair blynedd. Nodwch hefyd os gwelwch yn dda eich cynnig ar gyfer blwyddyn 4 pe

bai S4C yn dewis ymarfer ei hopsiwn i ymestyn y cytundeb y tu hwnt i'r cyfnod o 3 blynedd.

D.5 [Sylwadau ar y Cytundeb Drafft

Nodwch unrhyw sylwadau sydd gennych ar y cytundeb drafft sydd yn yr Atodlen i'r GID hwn. Noder, yn y cyd-destun hwn, y darpariaethau yn Rhan F.4 isod os gwelwch yn dda.

D.6 Sefyllfa Bersonol y Ymgeisydd

(Noder: os ydych yn ateb un o'r cwestiynau yn yr adran hon yn gadarnhaol ('Ydw'), rhowch fanylion yn eich cynnig tendro, os gwelwch yn dda.)

D.6.1 Ydych chi, neu unrhyw un o'ch cyfarwyddwyr neu unrhyw berson arall â phwer i gynrychioli, gwneud penderfyniadau neu i reoli eich sefydliad, wedi ei dyfarnu'n euog o unrhyw gynllwyn, llygredd, llwgrwobrwyo, twyll, gwyngalchu arian neu unrhyw drosedd arall o fewn Erthygl 45(1) o'r Gyfarwyddeb Sector Cyhoeddus?

D.6.2 Ydych chi'n fethdalwr neu a wnaed gorchymyn derbynnydd yn eich erbyn neu orchymyn i benodi gweinyddwr neu orchymyn cyfyngiadau methdalu yn eich erbyn neu a ydych chi wedi gwneud cyfaddawd neu drefniant gyda neu er budd eich credydwyr neu ydych chi'n methu talu neu heb ragolygon rhesymol o allu talu dyled neu ydych chi wedi arwyddo gweithred ymddiriedaeth o blaid eich credydwyr neu fel arall yn ymweld yn ansolfant neu ydych chi'n destun deiseb i atafaelu eich ystâd neu ydych chi'n destun unrhyw weithdrefn debyg dan gyfraith unrhyw wladwriaeth?

D.6.3 Ydych chi wedi pasio cynnig neu ydych chi'n destun gorchymyn llys i ddirwyn i ben neu a benodwyd derbynnydd, rheolwr neu weinyddwr ar ran credydydd dros eich busnes neu unrhyw ran ohono neu ydych chi'n destun unrhyw weithdrefn debyg dan gyfraith unrhyw wladwriaeth?

D.6.4 Ydych chi, neu unrhyw un o'ch cyfarwyddwyr neu unrhyw berson arall â phwer i gynrychioli, gwneud penderfyniadau neu i reoli eich sefydliad, wedi eich dyfarnu'n euog o drosedd yn ymwneud â rhedeg eich busnes neu'ch proffesiwn?

D.6.5 Ydych chi, neu unrhyw un o'ch cyfarwyddwyr neu unrhyw berson arall â phwer i gynrychioli, gwneud penderfyniadau neu i reoli eich sefydliad, wedi cyflawni gweithred o gamymddygiad difrifol tra'n rhedeg eich busnes neu'ch proffesiwn?

D.6.6 Ydych chi wedi methu â chyflawni eich ymrwymiadau mewn perthynas â thalu cyfraniadau nawdd cymdeithasol neu drethi dan ddeddf unrhyw ran o'r Deyrnas Gyfunol neu'r wladwriaeth lle yr ydych chi wedi eich sefydlu?

D.6.7 Ydych chi wedi methu â sicrhau unrhyw drwydded berthnasol neu ymaelodi ag unrhyw sefydliad priodol neu gofrestru ar unrhyw gofrestr proffesiynol neu fasnach, lle mae'r gyfraith yn mynnu hynny?

D.6.8 Ydych chi wedi bod yn euog o gamgynrychioli'n ddifrifol wrth ddarparu gwybodaeth a oedd angen i chi eu ddarparu mewn perthynas ag unrhyw gafael?

Os byddwch chi (neu, yn achos cynnig tendro wedi ei gynnig gan gonsortiwm, unrhyw aelod o'r consortiwm) ar unrhyw adeg yn dod yn ymwybodol bod unrhyw wybodaeth a gyflwynwyd gennych (neu, yn achos cynnig tendro wedi ei gyflwyno gan gonsortiwm, gan unrhyw aelod o'r consortiwm) i S4C mewn cysylltiad â'r broses dendro hon yn anghyflawn, yn anghywir neu'n gamarweiniol mewn unrhyw fodd neu wedi peidio â bod yn gywir, rhaid i chi hysbysu S4C o hynny'n syth.

Rhan E Meini Prawf Pwyso a Mesur a Dyfarnu'r Cytundeb

E.1 Bydd y cytundeb yn cael ei ddyfarnu ar sail y tendr mwyaf fanteisiol yn economaidd . Er mwyn asesu pa gynnig tendro sydd fwyaf economaidd fanteisiol, bydd panel o gynrychiolwyr S4C yn pwyso a mesur ac yn sgorio'r cynigion tendro sydd wedi eu cyflwyno yn unol â'r GID hwn yn ôl y meini prawf a'r pwysoli canlynol (sydd heb eu rhestru yn nhrefn eu blaenoriaeth):

	Meini Prawf	Pwysiad %
(a)	Y gwasanaeth mwyaf cost effeithiol i S4C.	(20%)
(b)	Profiad yr ymgeisydd o sefydlu, rhedeg a chynnal paneli ymchwil.	(20%)
(c)	Gallu'r ymgeisydd i gynnig panel mwy/sampl mwy o faint o fewn y gyllideb.	(5%)
(ch)	Methodoleg yr ymgeisydd i optimeiddio graddfeydd ymateb a rhwystro ac ymdopi â graddfeydd lleihad maint y Panel.	(5%)
(d)	Methodoleg yr ymgeisydd i gyflawni gwasanaeth panel ymateb cynulleidfa yn unol â gofynion S4C gan gynnwys defnyddio dadansoddiadau data hir dymor.	(5%)
(dd)	Gallu'r ymgeisydd i recriwtio Panel addas o fewn yr	(10%)

	amserlen a fynnir.	
(e)	Dulliau creadigol o sicrhau adborth ymchwil drwy ddefnyddio technoleg newydd ac hefyd adborth ar wefannau a gwasanaethau ar-lein.	(10%)
(f)	Y gallu i gynnal ansawdd, cysondeb a phrydlondeb ymateb y gwasanaeth panel ymateb cynulleidfa drwy gydol tymor y cytundeb.	(15%)
(ff)	Hyblygrwydd yr ymgeisydd i ymateb i ddatblygiadau o fewn S4C o dro i dro.	(5%)
(g)	Dealltwriaeth o'r diwydiant teledu.	(5%)

E.2 **Diarddel Cynigion Tendro/Ymgeiswyr**

Ceidw S4C yw hawl i ddiarddel cynnig tendro a/neu ymgeisydd o'r broses dendro hon ar unrhyw adeg os :

(a) nad yw'r cynnig tendro'n cydymffurfio mewn unrhyw fodd â gofynion y GID hwn;

(b) yw unrhyw wybodaeth a gyflwynir i S4C gan yr ymgeisydd perthnasol (neu, yn achos consortiwm, unrhyw un o'r aelodau) yn anghyflawn, yn anghywir neu'n gamarweiniol mewn unrhyw fodd neu'n peidio â bod yn gywir;

;

(c) yw'r ymgeisydd wedi cydgynllwynio ag unrhyw berson (ac eithrio, pan fo'r ymgeisydd yn gonsortiwm, cydgynllwynio rhwng aelodau'r

consortiwm ar gynnig tendro'r consortiwm) mewn perthynas â neu yngl n â'i gynnig tendro ei hun neu gynigion ymgeiswyr eraill;

Bydd diarddel cynnig tendro neu ymgeisydd yn ddi-ragfarn i unrhyw hawliau neu rwymedïau eraill sydd gan S4C.

E.3 **Dyfarnu'r Cytundeb**

Rhaid i'r cynigion tendro barhau ar agor i'w derbyn am gyfnod o 12 mis o'r dyddiad cau ar gyfer derbyn cynigion tendro a bennir yn Rhan B.1 uchod.

Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rhan F.1 isod:

(a) wedi i'r pwyso a mesur o'r cynigion tendro gael ei gwblhau, bydd S4C yn hysbysu'r ymgeiswyr o ganlyniad y pwyso a mesur;

(b) ar yr adeg honno bydd hawl gan y ymgeiswyr ofyn am adborth gan S4C os dymunir hynny; ac hefyd

(c) bydd gofyn i'r ymgeisydd sydd wedi cyflwyno y cynnig tendro llwyddiannus ddod i gytundeb ag S4C yn ffurf y Cytundeb Drafft. Ni ystyrir bod cytundeb wedi ei ffurfio ac yn weithredol oni bai bod S4C yn arwyddo'r cytundeb. Ni fydd unrhyw ddatganiad ar lafar nac yn ysgrifenedig for S4C wedi derbyn ubnrhyw gais nac unrhyw hysbysiad bod yr ymgeisydd wedi bod yn llwyddiannus yn golygu bod cytundeb mewn grym rhwng y partïon.

Noder, os gwelwch yn dda, os bydd consortiwm wedi cyflwyno cynnig tendro sydd yn dderbyniol i S4C, gall S4C fynnu bod y consortiwm yn ffurfio endid cyfreithiol cyn arwyddo cytundeb fframwaith a/neu a all S4C fynnu fod holl aelodau'r consortiwm yn atebol ar y cyd ac yn unigol a/neu fod rhai neu'r cyfan o aelodau'r consortiwm yn cynnig gwaranteb neu ymrwymiadau ar ran rhai neu'r cyfan o aelodau eraill y consortiwm.

Rhan F Nodiadau Cyfreithiol

F.1 Dim Ymrwymiad i Ddyfarnu'r Contract

Ni fydd dim a ymgorfforir yn y GID hwn nac unrhyw gyfathrebu rhwng S4C ac ymgeisydd yn golygu bod cytundeb mewn grym ar gyfer darparu unrhyw wasanaeth sy'n cael ei gynnwys o fewn y broses dendro hon nac yn warant na chynrychiolaeth y bydd unrhyw gytundeb yn cael neu'n debygol o gael ei ddyfarnu.

Ceidw S4C yr hawl:

(a) i dynnu'n ôl o'r broses dendro hon a/neu i roi'r gorau iddi a/neu ohirio'r broses dendro ar unrhyw adeg;

(b) i beidio dyfarnu unrhyw gytundeb o ganlyniad i'r broses dendro;

(c) i ychwanegu at y telerau ac amodau yn y GID hwn, eu diwygio a/neu i ymhelaethu arnynt;

(ch) i ofyn i ymgeiswyr egluro eu cynigion tendro a/neu gyflwyno gwybodaeth ychwanegol mewn perthynas â hwy; ac hefyd

(d) i beidio arwyddo cytundeb â pherson nad sydd yn endid sydd wedi cyflwyno cynnig tendr llwyddiannus ac, os yw tendr llwyddiannus wedi ei gyflwyno gan gonsortiwm, i beidio gwneud cytundeb o ganlyniad i hynny gan gynnwys ond heb gyfyngiad os bydd aelodau'r consortiwm yn wahanol ar unrhyw wedd i'r aelodau a ddynodwyd yn y cynnig tendro.

Gall unrhyw ychwanegiadau, diwygiadau a/neu ymhelaethu ar y telerau ac amodau yn y GID hwn gael eu gwneud ar gael i ymgeiswyr drwy wefan S4C (www.S4C.co.uk) drwy glicio ar "tendrau" a dilyn y ddolen. Cyfrifoldeb yr ymgeiswyr fydd sicrhau eu bod yn chwilio'n rheolaidd ar y ddolen hon am ychwanegiadau, diwygiadau a/neu eglurhad pellach.

Ni cddylid rhoi unrhyw gyhoeddusrwydd i'r broses dendro hon nac i ddyfarnu unrhyw gytundeb heb dderbyn caniatâd penodol S4C ymlaen llaw..

I.2 Gwadu Atebolrwydd

Nid yw S4C yn rhoi unrhyw warant nac addewid fod unrhyw wybodaeth a gynhwysir yn y GID hwn yn gyflawn nac yn gywir a bydd pob ymgeisydd yn dibynnu ar y fath wybodaeth ar ei risg ei hun.

I.3 Gwrthdaro Buddiannau

Mae'n ofynnol eich bod yn darparu manylion os ydych chi'n ystyried y gallai fod yna unrhyw wrthdaro buddiannau rhwng unigolion sy'n rhan o'ch cynnig tendr a Staff S4C. Mae hyn er mwyn i S4C sicrhau ei fod yn neilltuo staff i'r broses dendro sydd heb unrhyw berthynas bersonol â chi neu gydag unrhyw rai o'ch staff neu aelodau eich consortiwm neu ei staff.

F.4 Cytundeb Drafft

Dylid cynnwys unrhyw sylwadau sydd gennych ar y Cytundeb Drafft o fewn eich cynnig tendro. Fel arall, wrth gyflwyno cynnig tendro, ystyrir eich bod wedi derbyn telerau ac amodau'r Cytundeb Drafft. Nid yw nodi eich sylwadau o angenrheidrwydd yn golygu eu bod yn cael eu derbyn neu y byddan nhw'n cael eu derbyn gan S4C. Ceidw S4C yr hawl i ddiwygio'r Cytundeb Drafft unwaith y bydd manylion y cynnig tendr llwyddiannus yn wybyddus er mwyn adlewyrchu'r cynnig tendr llwyddiannus.

F.5 Codau Ymarfer a Chanllawiau

Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus gydymffurfio â'r codau ymarfer a'r canllawiau canlynol (ymhlith eraill):

- Cod Ymddygiad yr MRS (Y Gymdeithas Ymchwil Marchnata Brydeinig)

- Cynllun Iaith Gymraeg S4C.

F.6 Rhyddid Gwybodaeth

Mae S4C yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ("DRhG/FOI"). Os ydych chi'n credu bod unrhyw wybodaeth a gyflwynir gennych i S4C yn sgil y GID hwn yn fasnachol sensitif neu'n gyfrinachol ei natur, dylid dynodi hynny'n benodol a dylid rhoi'r rhesymau llawn am ei sensitifrwydd yn eich cynnig tendro. Fodd bynnag, os gwelwch yn dda, nodwch **nad** yw dynodi bod gwybodaeth yn gyfrinachol neu'n fasnachol sensitif yn gwarantu y caiff ei heithrio o gael ei datgelu. Ceidw S4C y disgresiwn i benderfynu os yw gwybodaeth benodol i'w heithrio rhag cael ei datgelu ai peidio.

F.7 Gwarchod Data

Drwy gyflwyno cynnig tendro, rydych yn awdurdodi S4C i brosesu'r holl wybodaeth a gyflwynir fel rhan o'ch cynnig tendro ac yn cadarnhau eich bod wedi sicrhau pob caniatâd sydd eu hangen gan bob trydydd parti i alluogi S4C i wneud hyn.

F.8 Cyfrinachedd

Drwy gyflwyno cynnig tendro, rydych yn cytuno i gadw yn gyfrinachol unrhyw wybodaeth sydd ddim eisoes gyhoeddus ar yr adeg y mae'n cael ei datgelu neu ei dadlennu i chi fydd yn cael ei datgelu neu ei gwneud ar gael fel arall i chi gan S4C ym mha bynnag cyfrwng yn ystod neu mewn cysylltiad â'r broses dendro hon ac yn cytuno i beidio â defnyddio gwybodaeth o'r fath i unrhyw ddibenion ac eithrio

ar gyfer paratoi eich cynnig tendro ac i beidio â datgelu'r wybodaeth hon i unrhyw berson ac eithrio'n gyfrinachol ac i'r personau hynny sy'n ymwneud yn uniongyrchol â pharatoi eich cynnig tendro yn unig ac ar y sail yn unig fod angen iddynt fod yn ymwybodol o'r fath wybodaeth .

F.9 Costau Tendro

Bydd pob ymgeisydd yn gyfrifol am y costau a threuliau y mae wedi ei wario yn sgil y broses dendro hon. Ni fydd S4C dan unrhyw amgylchiadau'n cyfrannu tuag at unrhyw gostau a threuliau o'r fath.

F.10 Goblygiadau Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeraethau (Diogelu Cyflogaeth) 2006 ("TUPE")

Fel a nodwyd yn Rhan A.2 uchod, mae gofynion S4C ar gyfer darparu gwasanaeth panel ymateb cynulleidfa ar hyn o bryd yn cael eu cyflenwi gan ddarparydd gwasanaeth trydydd parti. Lle bo gweithgaredd busnes yn cael ei ail-dendro, gall newid darparwr olygu "trosglwyddo ymgymeraeth" neu "newid mewn darparu gwasanaeth" at ddibenion Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeraethau (Diogelu Cyflogaeth) 2006 .Yn fras, mae TUPE yn pennu lle bo "trosglwyddiad o ymgymeraeth" a/neu "newid mewn darparu gwasanaeth", bod yr ymgeisydd llwyddiannus yn cymryd drosodd unrhyw atebolrwydd a chyfrifoldebau cyflogaeth o dan cytundebau cyflogaeth y rhai sy'n gyflogedig gan ddarparwr cyfredol y gwasanaeth sydd wedi eu neilltuo yn benodol i weithio ar gytundeb S4C. Rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus gynnig yr un telerau ac amodau

cyflogaeth â'r darparwr blaenorol a pharhad eu cyflogaeth gyda'r ymgeisydd llwyddiannus. Nid yw S4C yn rhagweld y bydd unrhyw rai o gyflogai S4C ei hunan yn destun unrhyw drosglwyddiad TUPE. Mae'r cwestiwn a yw TUPE yn weithredol ai peidio wastad yn fater cymhleth cyfreithiol a bydd rhaid i'r ymgeisydd ei ystyried a cheisio ei gyngor ei hunan ar y cwestiwn a yw TUPE yn weithredol ai peidio. Gan nad yw S4C yn rhan o unrhyw Drosglwyddiad TUPE, bydd hyn yn fater i'w ddatrys rhwng y darparwr blaenorol a'r ymgeisydd llwyddiannus.

F.11 **Newidiadau i'r Dogfennau Tendro**

Ceidw S4C yr hawl i newid y dogfennau tendro cyn y dyddiad cau ar gyfer derbyn y cynigion tendro fel y'i pennir yn Rhan B.1 uchod. Er mwyn rhoi cyfle i ymgeiswyr ystyried newidiadau o'r fath, gall S4C, yn ei disgresiwn llwyr, ymestyn y dyddiadau a bennir yn Rhan B.1 uchod.

F.12 Llywodraethir y GID hwn yn unol â chyfraith Cymru a Lloegr a bydd pob ymgeisydd, drwy gyflwyno cynnig tendro, yn cytuno i ufuddhau i awdurdodaeth ecsgliwsif llysoedd Cymru a Lloegr.

YR ATODLEN

Cytundeb Drafft